CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL
25ain O HYDREF 2007 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Y Maer Christopher Thomas.

YN BRESENNOL

Cyng. Maer Christopher Thomas (**Cadeirydd**)
Cyng: Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis Hazel Davies, John Davies, Margaret Davies-Evans, Robert (Hag) Harris, Lynda Mason George**,** Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.

Heddwas Jonathan James
Arolygydd Heddlu (AH) Alun Harris (yn cyflenwi dros AH Arfon Jones)
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones

2. YMDDIHEURIADAU

Greg Evans, Hag Harris (yn ystod y 45 munud cychwynnol y cyfarfod), a'r Blismones Jo Grey.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL

Datgelodd y Maer C.Thomas ddiddordeb pan yn trafod y cyfuno arfaethedig Ymddiriedolaethau Iechyd Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro i ffurfio'r *Ymddiriedolaeth Iechyd Dyfed*, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan yr Ymddiriedolaeth GIG.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 27ain O FEDI 2007

Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd at y 27ain o Fedi. Fe'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

5.1 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys Cynllun Plismona 2008-11: blaenoriaethau ar gyfer Llambed i gynnwys:

- **5.1.1 Targedu'r broblem cyffuriau** sy'n bololi ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- **5.1.2 Bod presenoldeb yr heddlu i'w gweld yn amlach** ar strydoedd y dref h.y. "Bobby on the Beat".
- **5.1.3 Bod yr Ardal Eithro Alcohol** yn gwahardd y defnydd o alcohol mewn lleoedd penodol yn y dref, yn cael ei chadarnhau cyn gynted â bo modd.

5.1.4 **Bod yr heddlu'n ymwybodol o effeithiolrwydd System Camerau Teledu Cylch Caeëdig (CTCC)** yn Llambed ac yn abl i gynnig y diweddaraf i'r cyhoedd fel-a-phan-bo-eisiau.

5.1.5 **Nad yw'r swyddogion** a apwyntir i Lambed ac ond wedi dechrau cyfarwyddo â'r dref, yn cael eu hadleoli i swydd mewn ardal arall.

5.1.6 **Rheoli Traffig –** taclo problemau parcio.

5.2 **Bydd Fforwm Ymgynghorol Cymunedol yr Heddlu** yn cael ei gynnal ar y 13eg o Dachwedd, ym Mhenmorfa, Aberaeron. Bydd y meysydd trafod yn cynnwys tueddiadau troseddu yn ein hardal; blaenoriaethau plismona ar gyfer 2008-09 a chyllideb yr Heddlu ar gyfer 2008-09.

5.3 **Bydd y ffair yn cael ei chynnal ar y 14/15/16** o Dachwedd ar faes parcio'r *Rookery.* Problem ychwanegol sy'n effeithio'r drafnidiaeth yn yr ysgol elfennol yw'r ffair, er fod Cyngor y Dref yn cefnogi lleoliad y ffair yno.

5.4 **Mae diogelwch plant pan yn teithio** i, ac o'r ysgol newydd gynradd, yn holl bwysig. Adroddwyd fod parcio ceir ar y lleoliad yma'n cael ei fonitereiddio gan Rheolwr Traffig CSC.

5.5 **Ardal Gwahardd Alcohol (AGA) i Lambed:** mae busnesau ac unigolion yn cael eu hargymell i anfon ymatebion ysgrifenedig at yr heddlu'n cefnogi'r AGA ar strydoedd Llambed. Byddai'r dogfennau yma'n atgyfnerthu cais yr heddlu a gyflwynir gerbron y cyngor sir yn y dyfodol agos. Dylai'r her yn ymwneud â Sgwâr Harford gael ei phwysleisio yng nghynnwys y llythyr.

5.6 **Bu nifer o ladradau yng Ngheredigion,** roedd 2 berson yn y ddalfa.

5.7 **CTCC:** Gobeithir cyflogi contractwr cyn bo hir i ddileu y ffaeleddau ac i uwchraddio'r cyfarpar. Yn ôl yr heddlu dylai'r system newydd fod mewn bodolaeth erbyn y Nadolig.

5.8 **Bydd yna nifer o ymgyrchoedd,** yn arwain i'r Nadolig gan gynnwys *Disgo Golau-Glas* yn ngwesty'r Llew Du ar y 23ain o Dachwedd.

5.9 **Adroddodd yr heddlu fod y nifer o droseddau** a gymerwyd lle'n yr ardal, wedi disgyn yn ystod y flwyddyn yma, o gymharu â'r flwyddyn cyn hynny.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 ***Cittaslow***: y sefyllfa bresennol: Ar Hydref 17eg cadeiriodd y Maer gyfarfod gyda'r arweinyddion dinesig, yn cymell fod Llambed yn mynd ymlaen â statws *Cittaslow*. Penderfynodd y cynghorwyr yn unfrydol y dylai pwyllgor *Cittaslow* gael ei sefydlu a'r Maer C.Thomas i fod yn gadeirydd. Cynhelir y cyfarfod cychwynnol ym mis Ionawr.

6.2 **Datblygiadau parthed y fainc**: byddai'n cael ei lleoli tu allan i'r fynwent ar gyrion y dref, ar yr A475 Heol Llanwnnen. Byddai'n cael ei chasglu a'i chydosod cyn bo hir.

6.3 **Hyfforddiant Archwilio Llefydd Chwarae CSC**: bydd y Maer yn mynychu'r cwrs a gynhelir ym Mhemorfa ar yr 21ain a'r 22ain o Dachwedd.

6.4 **Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Llambed**-Mae'r polisi wedi derbyn cymeradwyaeth *Bwrdd yr Iaith.*

6.5 **Llyfryn Tref Llambed:** gan na gyhoeddi'r llyfryn tan y gwanwyn, teimlwyd y byddai'n briodol petai'r maer y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf, sef y Cyng. S.Walters yn ysgrifennu'r dudalen agoriadol.

6.6 **Partneriaeth Pobl Ifainc**- cynhaliwyd cyfarfod ar y 5ed Hydref. Cynhelir cyfarfod yng nghwmni'r Cyngor Ysgol Uwchradd Llanbedr PS cyn bo hir.

6.7 **Tir ym Maesyderi**: cysylltwyd â'r Cyngor sir i ofyn tybed fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref weinyddu'r cae. Derbyniwyd fap oddi wrth yr Awdurdod

yma'n gofyn i'r Cyngor Tref i ddangos ffiniau'r darn o dir. Dywedwyd fod cwmni preifat wedi dangos diddordeb mewn datblygu'r adeilad yr hen ysgol gynradd at ddibenion y gymuned.

6.8 CCB Un Llais Cymru: Adborth: Mynychodd y Maer a'r Cyng.D. Williams y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar y 13eg o Hydref. Buont yn trafod "Map-Llifogydd" (cynnig a gyflwynwyd gan ULlC Ceredigion) a chyflwr y diwydiant amaethyddol yng Nghymru (cynnig a gyflwynwyd gan ULlC Sir Gâr). Anerchwyd y gynhadledd gan Dr. Brian Gibbons AC, y Gwenidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Trafododd rôl, swyddogaethau a photensial cynghorau lleol. Roedd y cyflwyniad a dderbyniwyd gan 2 aelod o Gyngor Ieuenctid Rhydaman yn arddangos arfer da pan yn ceisio sefydlu a gweinyddu Cyngor Ieueuctid.

6.9 Parcio: Rhes Harford: Gresynwyd y Cyng. M.Davies-Evans y ffaith fod cerbydau'n dal i barcio o fewn cyffiniau Rhes Harford. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir yn mynegi y byddent yn ceisio datrys y broblem pan fyddai adnoddau'n caniatau. Dywedwyd y byddai gorfodi Gorchymyn Trafnidiaeth yn y lle hwn yn costi gwariant o £6,000.

6.10 Gwasanaeth y Cadoediaid, 11/11/2007 am 11:00am: gwnaed trefniadau ar gyfer y gwasanaeth yma i gofio am y rhai a rhoddodd eu bywydau drosom, yn y ddwy Rhyfel Byd y ganrif olaf ac mewn terfysgoedd milwrol ers hynny.

6.11 Te Parti - (Young at Heart): 28ain o Dachwedd

6.12 Astudiaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio ar gyfer Llanbedr PS: Ymgynghoriaeth Hyder: Cynhaliwyd gyfarfodydd agored ar yr 20/21/22 o Fedi. Comisiynwyd *Hyder* gan y Cynulliad Cenedlaethol i gasglu barn preswylwyr wrth iddo ymroi i greu adroddiad ar sut i ddatblygu Llambed a'r cyffiniau. Bydd yn llywyddi 2 sesiwn yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Llanbedr PS ar Dachwedd 16eg, i edrych ar gasgliadau ei adroddiad drafft ar ddiwygio economaidd ac adfywio'r dref.

6.13 Baeau Parcio ar gyfer bysiau: ystyriwyd addasrwydd Baeau Parcio ar gyfer bysiau ger yr hen Adeilad Amaethyddol, Pontfaen. Meddylid y dylid ceisio darganfod lleoliad mwy addas. Cytunwyd i ymchwilio i ddichonolrwydd llefydd eraill.

6.14 Shopmobility, Aberystwyth: cytunwyd i wahodd Mr Bill Irving, Sefydliad *Shopmobility* i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref, gyda'r bwriad i ail-sefydlu gwasanaeth *Shopmobility* yn y dref.

7. GOHEBIAETH
Cofnod 48/2007

7.1 Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion, Gofal Plant; Plant a Phobl Ieuainc CSC: er gwybodaeth.

7.2 Cynigion ar y fframwaith i fesur perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub (LLCC): nodwyd er gwybodaeth.

7.3 Goleuadau Miri Nadolig 2007: gwnaed trefniadau gogyfer llenwi'r ffurflen.

7.4 Cyngor Cymuned y Borth: copi o'r llythyr a anfonwyd gan Cyngor Cymuned y Borth at Edwina Hart, Gwenidog Iechyd, Y Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi gwrthwynebiad dros ystyried cyfuno Ymddiriedolaethau Iechyd Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro gan sefydlu Ymddiriedolaeth Iechyd Dyfed. Roedd aelodau Cyngor Cymuned y Borth yn annog y Cyngor Tref i ddilyn eu hesiampl ac i gyflwyno llythyr o'r un farn i'r Cynulliad. Ar ôl trafod yn ofalus

penderfynwyd i beidio â mynegi gwrthwynebiad i'r cyfuno arfaethedig. Nodwyd cynnwys y llythyr: er gwybodaeth.

7.5 **Gwesty'r Plu, Aberaeron CCB** Cyngor Henoed Ceredigion 15/11/2007: er gwybodaeth

7.6 **Mark Williams AS Dem.Rhydd - yn amgae posteri, "**Cysylltu ag AS" ac yn dymuno cyfarchion Tymor y Nadolig, i aelodau'r Cyngor Tref**.**

8. MENTER LLAMBED
Cofnod 49/2007

8.1 Cynllun Cadw'n Heini: mae'r gwaith wedi ei gyflawni, erbyn hyn ym Mharc yr Orsedd. Agorir y safle'n swyddogol gan y Maer, maes-o-law.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO
Cofnod 50/2007

9.1 Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wed eu caniatau gan y Cyngor Sir:

Rhif y Cais	**Ymgeisydd:**	**Lleoliad:**	**Manylion y cais:**
A070663	Mr A Conti Fflat dros ben Café Conti 5 Sgwâr Harford LLANBEDR PS	Fflat dros ben Café Conti 5 Sgwâr Harford LLANBEDR PS	Gosod ffenest gefn yn y drws a ddihangfa dân ar y llawr 1af.
A070834	Mr P R Evans Pennant Ffordd Glynhebog LLANBEDR PS	Darn o dir gerllaw Pennant, Ffordd Glynhebog LLANBEDR PS	Amryw amod 3 ar ganiatad cynllunio amlinellol A040054

9.2 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol

Rhif y Cais	**Ymgeisydd a Lleoliad:**	**Manylion y cais**	**Manylion y cais:**
A071116	Mr & Mrs Davies 56 Stryd y Bont LLANBEDR PS	Dymchwel adeilad presennol a codi adeilad newydd i gynnwys 2 fflat a stiwdio artist	Dim gwrthwynebiad. Codir pryderon ynglŷn â'r drafnidiaeth ychwanegol a achosir gan y datblygiad hwn.
A071051CD	CSC 26 Stryd y Bont ABERYSTWYTH ========== Ysgol Uwchradd	Newidiadau i'r to	Dim gwrthwynebiad

	Teras Peterwell LLANBEDR PS		

10. CYLLID
Cofnod 51/2007
10.1

	Gwein.	**Cynnal.**	**Ad.137**	**TAW**
	£	£	£	£
INCWM				
Llog 6 months Alliance & Leicester	2,183.15			
Cymhorthdal llwybrau cymunedol CSC		742.50		
CYFANSWM YR INCWM	**£2,925.65**			
GWARIANT				
Cyflog y clerc i mis	499.62			
Treth ac YC	129.14			
Golau a Gwres	20.00			
Eirwyn Williams- Llwybrau Cerdded		990.00		
Play World Systems (Parc-yr-Orsedd)		20,664.85		3,616.35
BDOStoy Hayword Archwilwyr Allanol	400.00			70.00
Ford Gron: Arddangosfa Tân Gwyllt			200.00	
Macmillan Cancr			100.00	
CCC 1 mis MLL TELECOM		1,633.34		285.83
CYFANSWM	1,048.76	23,288.19	300.00	3,972.18
CYFANSWM Y GWARIANT	**£28,609.13**			

10.2 Penderfynwyd i beidio â chyfrannu tuag at yr elusen Cnolfan Therapi Plant Cymru Bobath, ar hyn o bryd.

10.3 Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Urdd, yn gofyn am gymorth ariannol i lwyfannu'r Eisteddfod ym 2010. Penderfynwyd i ddarganfod pa weithgareddau codi arain sydd ar gael yn lleol.

10.4 Derbyniwyd "Rybudd o Ganlyniad Archwiliad" oddi wrth yr Archwilwyr Allanol, BDO Stoy Hayward, Cyfrifwyr Siartredig am y flwyddyn ariannol 2006-07. Caiff y poster ei arddangos am bythefnos gan gynnig cyfle i'r etholaeth i archwilio'r cyfrifon. Roedd adroddiad yr archwilwyr allanol yn tynnu sylw aelodau i'r lefel cronfeydd wrth gefn @ 31/03/2007 ac i'r Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb sy'n bodoli.

10.4.1 Lefel Cronfeydd wrth gefn

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor i wella eu rheolaeth fewnol neu eu harferion gwaith. Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried y rhain ond nid oes unrhyw rwymediagaeth statudol i weithredu arnynt.

Gwendid a Nodwyd: Mae lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor yn ymddangos yn uchel. Mae'r Cyngor yn ceisio defnyddio arian a lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf.

Yr Effaith ar y Cyngor: Nid oes gan y Cyngor y grym i gadw cronfeydd gormodol wrth gefn oni bai eu bod yn cynilo i brynu rhywbeth penodol.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor barhau i leihau lefel eu cronfeydd wrth gefn nes cyrraedd lefel mwy priodol. Nid yw lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel arfer fwy na dwywaith lefel y praesept (£43,220 x 2). Mae hi hefyd yn dderbyniol, ar y cyfan, i gadw cronfeydd uwch wrth gefn pan fydd y Cyngor yn cynilo i brynu eitem cyfalaf penodol neu wariant cyffredinol a dylai'r arian wedyn cael ei gadw mewn cyfrif llog uchel.

Nodwyd y gwendid yma, ar gyfer y dyfodol.

10.4.2 Gwarant Ffyddlondeb: Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Gwendid a Nodwyd: Mae lefel y warant ffyddlondeb sydd gan y Cyngor yn ymddangos yn annigonol yng ngoleuni'r balansau banc oedd mewn llaw ar yr 31ain o Fawrth 2007 (£153,351)a maint y praesept a dderbyniwyd wedyn ym mis Ebrill 2007 (£43,220) = £196,571.

Yr Effaith ar y Cyngor: Dan Adran 114 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i gyngor lleol gymryd sicrwydd y mae'n ei ystyried yn ddigonol parthed unrhyw un o'i swyddogion sy'n debygol o fod yn trafod ei arian. Gall y Cyngor benderfynu nad yw'r yswiriant yn "ddigonol" ar ei gyfer, ond er mwyn cyrraedd y farn honno rhaid iddo fod wedi adolygu'r gofyniad yn flynyddol a rhaid iddo fod â sail wrthrychol ar gyfer dod i gasgliad o'r fath.

Argymhelliad: Dylai'r Cyngor ystyried lefel yr yswiriant a'i osod ar lefel fydd yn amddiffyn y Cyngor rhag colledion dichonol. Dylai'r Cyngor adolygu hyn o leiaf unwaith y flwyddyn gan y gall amgylchiadau newid drwy'r flwyddyn. Argymhellir bod y swm yn ddigon i sicrhau'r uchafswm arian y mae'r Cyngor yn ei ddal ar unrhyw un cyfnod yn ystod y flwyddyn. Nid oes rhaid i gyngor gael Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb os yw'n ystyried bod dim sicrwydd yn "ddigonol" ond rhaid cael sail wrthrychol dros ddod i gasgliad o'r fath. Gall cynghorau llai, felly, benderfynu fod cost yr yswiriant hwn yn anghymesur â'r risg dan sylw. Os mai dyma'r achos, dylai'r Cyngor gofnodi'r penderfyniad hwn bob blwyddyn.

Penderfynwyd i gynyddu lefel yr Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb i gyfateb â'r uchafswm arian y mae'r Cyngor yn ei ddal ar unrhyw un cyfnod yn ystod y flwyddyn.

11. IS-BWYLLGORAU
Cofnod 52/2007

11.1 LLWYBRAU CERDDED Cais Cynllun Llwybrau Cymunedol 2008-09: Rhaid cyflwyno'r cais gerbron y cyngor sir erbyn 17eg o Rhagfyr. Daeth y cynllun

yma i rym o ganlyniad i gyllid a roddwyd i'r cyngor sir o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Llwybrau Cyhoeddus 2000.

Parc-yr-Orsedd: Mae'r 2 amcanbris ar gyfer trwsio'r ffens yn dal heb eu derbyn.

11.2 GOLEUADAU STRYD

11.2.1 Tu allan i Groesawdi, Heol y Bryn: Mae'r golau stryd yma wedi derbyn sylw gan y Cyngor Sir yn ddiweddar ond yn ôl y Cyng. D.Williams, mae'n dal yn ddiffygiol. Penderfynwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir, unwaith yn rhagor.

11.2.2 Penderfynwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i leoli golau-adweithiol yng nghyffiniau Parc-yr-Orsedd.

11.3 PALMANTAU

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y cyngor sir, yn sicrhau aelodau, y byddai'r namau a nodwyd gan y Cyng. R.Phillips ac E.Dafis yn eu *Hadroddiad Palmantau Gorffennaf 2007*, yn derbyn sylw manwl yn y dyfodol agos.

11.4 CAMERAU TELEDU CYLCH-CAEËDIG - GAN GYNNWYS YR ADRODDIAD MISOL ODDI WRTH CSC

Mae problemau'n bodoli ar 3 allan o'r 6 camerau. Bydd System y Camerau Cylch Cyfyng yn cau lawr am 5 niwrnod o'r Sul, Hydref 21ain, er mwyn i contractwr uwchraddio'r Ystafell Reoli a'r offer ategol. Bydd hyn yn galluogi i weithgareddau eraill fynd ymlaen mewn gwahanol safleoedd yng Ngheredigion ac, o ganlyniad, bydd System CTCC ar draws y sir yn cael ei reoli a'i olygu o Aberystwyth.

Mae'r system CTCC uwchraddol ac yn gweithio'n llawn, am bris o £12,000 y flwyddyn (yn hytrach na £19,600) yn hir-ddisgwyledig gan aelodau'r Cyngor Tref.

12. U.F.A.
Cofnod 53/2007

12.1 Cytunwyd i gysylltu â Co-op, Llanbedr PS i weld a fyddai'n bosibl i roi seddau yn y cyflestra Swyddfa Bost newydd. Byddai pobl hŷn, sydd wedi cerdded i lawr Heol y Bont i gyrraedd yr archfarchnad, yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth yma.

12.2 Datganwyd llongyfarchion i Brifysgol Llambed am agoriad "Y Ganolfan Confucius Gyntaf yng Nghymru". Mae'r cynnydd aruthrol yn safle Tseina mewn materion y byd, yn peri sefydlu'r Ganolfan Confucius yn Llambed, yn gam allweddol ar gyfer y dyfodol.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 29 Tachwedd 2007 am 7:30pm.

(Cadeirydd Dyddiad)